

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2019

**YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R LI Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Shaun James Redmond, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams.

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaeth),  
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,  
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,  
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  
Pennaeth Gwasanaethau Tai,  
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,  
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion  
Pennaeth Gwasanaethau Plant  
Pennaeth Dysgu  
Cyfreithiwr (Llywodraethiant a Chontractau Corfforaethol)  
Swyddog Pwyllgor (MEH)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dim

**YMDDIHEURIADAU:** Cyngorydd A M Jones

### 1. CADEIRYDD

#### **PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Margaret Murley Roberts yn Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2019/20.**

Wrth dderbyn y ffrwyth o gael ei phenodi, bu'r Cyngorydd Roberts sicrhau'r Cyngor y byddai'n gwneud pob ymdrech i gyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd hyd ei gallu. Diolchodd i'w rhagflaenydd, y Cyngorydd Dylan Rees, am y ffordd urddasol ac anrhydeddus yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau dinesig fel Cadeirydd y Cyngor Sir.

Bu'r Cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Dylan Rees ddiolch i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu cymorth yn ystod ei gyfnod yn y swydd ac yn enwedig i Mrs Carys Bullock, Mrs Janette Jones a Mr Chris Davies o'r Gwasanaethau Democrataidd ynghyd â Mr J Huw Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Dymunodd ddiolch i'w wraig Liz am ei chymorth a cyfeiriodd at y fraint a gafodd ei wraig ac yntau o fynychu gwahanol seremonïau a chyngherddau ledled yr Ynys. Rhoddodd y Cynghorydd Rees grynoded o'i uchafbwyntiau yn ystod ei flwyddyn fel Cadeirydd y Cyngor Sir gan nodi'n benodol Sul y Cadeirydd yng Nghapel Moreia, Llangefni a'r Gyngerdd Elusennol a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun, Llangefni. Cyfeiriodd ymhellach at y daith gerdded elusennol ar hyd llwybr arfordirol Ynys Môn pryd cafwyd cyfle hefyd i glirio chewch o draethau Ynys Môn ar hyd y ffordd. Dywedodd fod cyfanswm o dros £10,400 wedi'i gasglu tuag at ei elusen dewisedig, Hosbis Dewi Sant, yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

## **2. IS-GADEIRYDD**

### **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Glyn Haynes yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2019/20.**

Diolchodd y Cynghorydd Haynes i'w gyd-aelodau am y fraint a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cadeirydd ac at ei chefnogi gyda'i dyletswyddau dros y flwyddyn i ddod.

## **3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

## **4. CYHOEDDIADAU**

Dim

## **5. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2019/20**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod:-**

- 10 Medi, 2019 - 2.00 pm
- 29 Hydref, 2019 (Arbennig) - 2.00 pm
- 10 Rhagfyr, 2019 - 2.00 pm
- 25 Chwefror, 2019 - 2.00 pm
- Mai 2020 (Cyfarfod Blynyddol) – dyddiad i'w gadarnhau

## **6. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD / AELOD O'R PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, nododd yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys eu Portffolio:-

Y Cynghorydd Richard Dew gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Y Cyngorydd Llinos M Huws (Arweinydd) gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.  
Y Cyngorydd Carwyn Jones gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd.  
Y Cyngorydd R Meirion Jones gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant.  
Y Cyngorydd Alun Mummery gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau.  
Y Cyngorydd Bob Parry OBE FRAGS gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff.  
Y Cyngorydd Dafydd R Thomas gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Corfforaethol.  
Y Cyngorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg.  
Y Cyngorydd Robin Williams gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Cyllid.

## **7. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2019/20**

**Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad, PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Robert Llewelyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2019/20.**

## **8. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

**PENDERFYNWYD cadarnhau unrhyw rannau o'r Cynllun Dirprwyo y mae'n rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, gytuno arnynt fel y nodir ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad.**

## **9. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar drefniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.**
- **Bod Arweinyddion y Grwpiau yn rhoi gwybod cyn gynted ag sy'n bosibl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd os oes unrhyw newidiadau i aelodaeth y Grwpiau ar Bwyllgorau.**

## **10. CYRFF ALLANOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn am gadarnhau'r rhestr o benodiadau a wnaed i gyrff allanol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r penodiadau fel y'u nodir yn yr atodiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR  
GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – FFRAMWAITH CYDNABYDDIAETH  
ARIANNOL AELODAU AR GYFER 2019/20**

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cadarnhau y dylid talu cyflogau uwch i ddeiliaid y 16 swydd isod yn ystod 2019/20:-**

**Cadeirydd y Cyngor  
Is-gadeirydd y Cyngor  
Arweinydd  
Dirprwy Arweinydd  
Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith (7)  
Cadeirydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini  
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion  
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu  
Arweinydd Grŵp yr Wrth-blaid Fwyaf**

- **Awdurdodi swyddogion i ddiwygio Rhan 6 Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.**

**13. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y strwythur Pwyllgorau cyfredol canlynol fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor wedi cael ei ail-benodi, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor Sir)
- Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- is-Bwyllgor Indemniadau

**13. CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2019/20**

Cyflwynwyd i'w ystyried - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 2 Mai, 2019

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS  
CADEIRYDD**